Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Margaret Barnard Preschool
# Trefeddyg Stables
# Athelstan Road
# Tywyn
# LL36 9AN

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/04/2015**

## Cyd-destun

Mae Margaret Barnard Pre-school Playgroup wedi ei leoli yn Trefeddyg Stables, Tywyn yn awdurdod lleol Gwynedd.

Mae'r cylch chwarae wedi ei gofrestru i dderbyn hyd at 24 o blant fesul sesiwn, a chaiff plant eu derbyn o ddwyflwydd oed.  Ar hyn o bryd, mae 32 o blant ar y gofrestr, yn amrywio o ddwyflwydd oed i bedair blwydd oed.  Ar hyn o bryd, mae dau blentyn yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi ei hariannu yn y lleoliad.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad Saesneg fel iaith yr aelwyd, a dim ond ychydig iawn o blant sy'n dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith.  Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad.

Mae tri aelod staff amser llawn ac un aelod staff rhan-amser.  Mae gan yr holl staff gymwysterau a phrofiad addas o weithio â phlant ifanc.  Bu arweinydd y cylch chwarae yn y swydd er Medi 2008.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Rhagfyr 2014 ac fe'i harolygwyd ddiwethaf gan Estyn yn Hydref 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'n darparu llawer o brofiadau diddorol ar draws pob maes dysgu
- Mae plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd
- Mae'n darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i blant ddatblygu eu medrau corfforol
- Mae darpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn dda
- Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o ymddygiad a chyflawniad plant
- Mae rhieni'n wybodus am gynnydd eu plant
- Mae'n gymuned gynnes, groesawgar a chynhwysol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir iawn ar gyfer dyfodol y lleoliad
- Mae'r arweinydd yn rheoli ymarferwyr ac yn rhedeg y lleoliad o ddydd i ddydd yn dda iawn
- Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd fel tîm
- Caiff arbenigedd ymarferwyr unigol ei ddefnyddio'n dda i ddarparu profiadau dysgu buddiol i blant
- Mae gan y lleoliad hanes da o welliant parhaus
- Mae ymarferwyr wedi datblygu ystod ystyrlon o bartneriaethau
- Gwnânt ddefnydd da o wybodaeth o hyfforddiant i wella profiadau dysgu plant

## Argymhellion

A1 Defnyddio gwybodaeth asesu yn effeithiol i nodi'r medrau penodol y mae angen i blant eu dysgu nesaf ac i gynllunio'n briodol

A2 Adolygu cyflwr a defnydd adnoddau i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn bodloni anghenion pob plentyn

A3 Ffurfioli cyfarfodydd er mwyn sicrhau y caiff y lleoliad ei reoli'n fwy effeithiol

A4 Datblygu cyfleoedd i ymweld â lleoliadau eraill a rhannu arfer dda

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Amherthnasol |
|---|---|

**Safonau: Amherthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau o ran datblygu eu medrau a'r iaith Gymraeg. Mae hyn oherwydd bod nifer y plant perthnasol a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad yn rhy isel i adrodd arni heb adnabod plant unigol.

**Lles: Amherthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar les plant. Mae hyn oherwydd bod nifer y plant perthnasol a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad yn rhy isel i adrodd arni heb adnabod plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu llawer o brofiadau dysgu diddorol i blant ar sail themâu priodol, fel 'Dydd a Nos' a 'Dinosoriaid'. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant wedi eu cymell yn dda ac yn ymgymryd â thasgau yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn bodloni anghenion plant mwy abl yn briodol trwy ddarparu gweithgareddau sy'n fwy heriol, fel llyfrau â storïau estynedig a geirfa gyfoethocach, ac ardal chwarae rôl heriol. Fodd bynnag, ambell waith, nid yw gweithgareddau a phrofiadau'n bodloni anghenion plant llai abl.

Mae ymarferwyr yn darparu llawer o brofiadau gwerthfawr i helpu plant i ddatblygu eu medrau llythrennedd. Er enghraifft, maent yn darllen i'r plant yn rheolaidd ac yn darparu dwy ardal lyfrau, sydd wedi eu cyflenwi'n dda â llyfrau ffeithiol a llyfrau stori deniadol. Caiff plant lawer o gyfleoedd addas i ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar dan do ac yn yr awyr agored. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau cyfathrebu plant yn effeithiol trwy eu hannog i siarad am yr hyn y maent wedi ei ddysgu ar ddiwedd y sesiwn. Hefyd, maent yn helpu plant i wrando a dilyn cyfarwyddiadau'n dda yn ystod sesiynau dawnsio rheolaidd.

Mae'r lleoliad yn datblygu medrau rhifedd plant yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd defnyddiol i blant ddatblygu eu medrau paru a didoli, er enghraifft didoli dinosoriaid lliw mewn grwpiau. Maent yn annog plant i gyfrif yn rheolaidd wrth chwarae a thrwy ganu caneuon a rhigymau rhif, fel '5 currant buns'. Mae cyfleoedd addas i ddatblygu medrau meddwl plant.

Caiff plant gyfleoedd gwerthfawr iawn i ddatblygu eu medrau corfforol trwy sesiynau dawnsio rheolaidd a defnyddio'r ardal chwarae meddal yn y lleoliad, a dosbarthiadau symud yn y ganolfan hamdden gyfagos. Hefyd, mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau creadigol plant trwy arbrofi ag offerynnau cerdd a phaent yn ystod chwarae rhydd. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae gorddibyniaeth ar ddefnyddio templedi yn ystod gweithgareddau creadigol dan arweiniad oedolion.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg yn dda. Caiff plant lawer o gyfleoedd gwerthfawr i glywed ac ymateb i Gymraeg llafar trwy gydol y sesiwn. Cânt gyfleoedd defnyddiol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru trwy ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi a dysgu rhigymau traddodiadol, fel 'Mi welais Jac y Do'.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol. Mae gan y lleoliad reolau ac arferau sydd wedi eu hen sefydlu, y mae ymarferwyr yn eu dilyn ac yn eu hatgyfnerthu'n reddfol. O ganlyniad, mae plant yn teimlo'n ddiogel, ac maent yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. Gwna ymarferwyr ddefnydd da o ganeuon i atgyfnerthu eu harferion ac i gynorthwyo i ddatblygu'r Gymraeg. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn cyflwyno themâu diddorol a heriol i helpu plant i ddysgu am y byd o'u cwmpas. Maent yn cynllunio cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'r rhai sy'n cael eu cynnig gan yr ymarferwyr. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i blant wneud dewisiadau a datblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae ymarferwyr yn modelu iaith yn effeithiol i'r plant. Maent yn siarad yn glir ac yn briodol, ac yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i gyflwyno geiriau ac ymadroddion Cymraeg. Maent yn ymyrryd yn sensitif yn chwarae'r plant yn y rhan fwyaf o achosion, fel wrth helpu plant i ddysgu sut i ddefnyddio'r si-so yn yr ardal awyr agored. Er bod ymarferwyr yn datblygu eu medrau holi'n briodol, yn gyffredinol, ambell waith byddant yn gofyn gormod o gwestiynau i brofi gwybodaeth plant yn ystod tasgau â ffocws, gan gyfyngu ar gyfleoedd plant i feddwl a dysgu.

Mae ymarferwyr yn arsylwi'r plant ac yn asesu eu cynnydd yn rheolaidd. Maent yn trafod arsylwadau yn ystod y cyfarfodydd tîm wythnosol, ac yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i'w helpu i gynllunio gweithgareddau addas ar gyfer y dyfodol. Maent yn cadw cofnodion anffurfiol defnyddiol o'u harsylwadau ac yn llenwi cofnod mwy ffurfiol o gynnydd bob tymor. Mae'r cofnodion hyn yn ddefnyddiol o ran olrhain cynnydd plant dros amser. Mae'r lleoliad yn dechrau defnyddio system newydd i nodi medrau penodol y mae angen i blant eu dysgu nesaf. Fodd bynnag, hyd yn hyn nid yw ymarferwyr yn manteisio i'r eithaf ar y wybodaeth hon wrth gynllunio.

Mae'r lleoliad yn rhoi gwybod i rieni am gynnydd eu plant trwy adborth anffurfiol rheolaidd. Mae hefyd yn darparu adroddiad ysgrifenedig defnyddiol yn cwmpasu pob maes dysgu ar ddiwedd y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cynorthwyo iechyd a lles plant yn effeithiol. Er enghraifft, caiff pob un o'r plant eu hannog i ddod â byrbryd iach â nhw i'r lleoliad, fel ffrwythau a chaws, ac i olchi eu dwylo cyn bwyta. Mae ymarferwyr yn gwneud yn siŵr fod y plant yn cael digon o awyr iach bob dydd a'u bod yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae profiadau dysgu'n hyrwyddo datblygiad personol plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Er enghraifft, mae plant yn

dysgu medrau cymdeithasol pwysig fel ymateb i gyfarwyddiadau, eistedd wrth y bwrdd a dweud diolch am eu bwyd fel rhan o'u harfer ddyddiol. Maent yn dechrau dysgu am eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill yn effeithiol trwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a chymryd rhan mewn sesiynau dawnsio rheolaidd. Mae ymarferwyr yn annog plant i drin ei gilydd â pharch a rhannu teganau ac offer. Fodd bynnag, nid ydynt yn llwyddiannus o ran annog plant i fod yn gyfrifol am ddefnyddio adnoddau a thacluso ar eu hôl bob tro. Mae'r lleoliad yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd maent yn byw ynddo, fel pan wnaethant wylio'r cysgodion yn ystod yr eclips diweddar. Mae trefniadau addas ar waith i blant ddysgu sut i weithredu'n gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gêm gyfrifiadurol i ddysgu sut i ddidoli deunyddiau i'w hailgylchu.

Mae gan y lleoliad ystod briodol o bolisïau ar waith i ddiogelu plant a hyrwyddo eu lles. Yn ddiweddar, mae ymarferwyr wedi cael cyngor ychwanegol i sicrhau eu bod yn deall sut i ddilyn gweithdrefnau'n effeithiol. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae systemau addas i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol, ac mae'r lleoliad yn manteisio ar gymorth ychwanegol gan asiantaethau arbenigol, yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle gall pob un o'r plant fanteisio'n gyfartal ar weithgareddau. Mae ymarferwyr yn dangos lefel gyson o ofal a phryder tuag at bob un o'r plant, gan eu hannog i ddatblygu agweddau goddefol a dysgu sut i gydweithredu â'i gilydd. Er enghraifft, mae plant hŷn yn cynorthwyo plant iau yn dda wrth iddynt ymarfer torri toes â siswrn.

Mae'r lleoliad yn darparu llawer o adnoddau diddorol a deniadol i gynorthwyo dysgu plant dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau cyfrif canhwyllau pren i roi ar gacennau pen-blwydd, a defnyddio llyfrau o ansawdd da. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, mae gormod o adnoddau ac nid yw ychydig ohonynt mewn cyflwr da. Ambell waith, mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd plant i ymestyn a chynnal eu chwarae a gwneud dewisiadau priodol.

Mae'r ardaloedd dan do ac awyr agored yn ddiogel. Mae'r ardal awyr agored wedi ei gosod a'i chynnal a chadw'n dda, gan gynnwys planwyr lle mae plant yn tyfu perlysiau, bylbiau a llysiau. Yn ddiweddar, prynodd y lleoliad sied i gadw adnoddau ynddi, gan eu galluogi i wella'r ddarpariaeth awyr agored. Maent yn gwneud defnydd da o'r ystafelloedd dan do ac yn gweithio'n galed i'w cynnal a chadw'n addas. Maent wedi adnewyddu'r hysbysfyrddau'n ddiweddar, gan eu galluogi i wneud arddangosiadau deniadol o waith plant. Mae ymarferwyr yn meddwl yn ofalus am sut i drefnu'r meysydd dysgu i fanteisio i'r eithaf ar y lle sydd ar gael. O ganlyniad, maent yn llwyddo i ddarparu amgylchedd dysgu symbylol sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o blant. Fodd bynnag, nid oes cornel cartref ar gael yn ddyddiol i feithrin datblygiad personol a chymdeithasol plant.

Gwna'r lleoliad ddefnydd effeithiol o'r amgylchedd lleol i gyfoethogi dysgu plant. Er enghraifft, mae'r ymweliadau wythnosol â'r ganolfan hamdden gyfagos yn helpu plant i ddysgu am eu cymuned leol, yn ogystal â datblygu eu medrau corfforol a'u medrau iaith a chyfathrebu yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn darparu cyfeiriad cryf i'r lleoliad. Mae ganddi weledigaeth glir iawn i sicrhau dyfodol y cylch ac i gyflawni'r safon orau o addysg a gofal i'r plant. Mae'n ysbrydoli eraill yn llwyddiannus, gan gynnwys pobl fusnes leol, i'w chynorthwyo yn hyn o beth. Mae'r arweinydd yn rheoli ymarferwyr ac yn rhedeg y lleoliad o ddydd i ddydd yn dda iawn, gan osod safonau uchel iddi hi'u hun ac i eraill.

Mae'r holl ymarferwyr yn deall eu rolau ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau'n llwyddiannus. Mae'r dirprwy arweinydd yn cyflawni ei dyletswyddau i safon uchel ac yn cydweithio'n dda â'r arweinydd. Mae'r arweinydd yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol, gan wneud defnydd da o'u help a chyngor i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn rhwydd. Er enghraifft, mae wedi defnyddio cyngor gan athro cymorth yr awdurdod lleol i wella darpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd plant.

Mae gan yr arweinydd berthynas waith agos â'r unigolyn cofrestredig, sydd hefyd yn gadeirydd y pwyllgor. O ganlyniad, mae gan gadeirydd y pwyllgor wybodaeth a dealltwriaeth dda o gynnydd y lleoliad, a chaiff ymarferwyr gymorth gwerthfawr â materion wrth iddynt ddod i'r amlwg. Fodd bynnag, er bod pwyllgor rheoli cefnogol yn bodoli, mae cofnodion o gyfarfodydd ffurfiol yn brin. O ganlyniad, nid yw'n amlwg sut mae'r lleoliad yn mynd i'r afael â materion fel adolygu polisïau'n rheolaidd.

Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd da o ran bwrw ymlaen â mentrau cenedlaethol. Mae ymarferwyr yn sicrhau y caiff plant lawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ym mhob maes dysgu, ac i ddysgu am sut i gadw'n iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda. Maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu'n llwyddiannus, ac yn cymryd camau priodol i gynnal arfer dda a rhoi newidiadau ar waith.

Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o broses hunanarfarnu newydd i lunio cynllun gwella defnyddiol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn dda i ddatblygu medrau plant, ac maent wedi prynu adnoddau ychwanegol ar gyfer yr ardal fathemateg a ddatblygwyd yn ddiweddar, gan arwain at ddarpariaeth well. Mae gan y lleoliad hanes da o wella'n barhaus. Er enghraifft, ad-drefnodd yr amgylchedd dysgu i gynnal safon y ddarpariaeth ac i ymateb i anghenion gwahanol y plant iau a dderbyniwyd i'r cylch yn ddiweddar.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau eraill, fel athro cymorth yr awdurdod lleol ac AGGCC. Maent yn croesawu syniadau newydd ac yn fodlon gweithredu ar argymhellion. Er enghraifft, gwnaethant ddilyn cyngor gan athro cymorth yr awdurdod lleol i ddatblygu eu defnydd o ganeuon a rhigymau Cymraeg, gan gynorthwyo datblygiad iaith Gymraeg y plant. Gweithredodd arweinwyr ar gyngor ar unwaith yn dilyn arolygiad diweddar AGGCC, gan wella gweithdrefnau diogelu yn briodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod ystyrlon o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n effeithiol at gyflawniadau a lles plant.

Mae gan ymarferwyr ymrwymiad cryf i rannu gwybodaeth am fywyd dyddiol y cylch â rhieni. Maent yn gwneud defnydd gofalus ac effeithiol o'r rhyngrwyd i rannu gwybodaeth werthfawr am yr hyn y mae plant yn ei wneud yn ystod y sesiynau ac yn trosglwyddo negeseuon am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Maent yn arddangos gwybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud ag iechyd a lles yn effeithiol ar hysbysfyrddau'r lleoliad. Caiff rhieni gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd i ddysgu am gynnydd eu plant. O ganlyniad, mae gan y lleoliad berthynas gadarnhaol iawn â rhieni.

Mae ymarferwyr yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gynorthwyo dysgu plant. Er enghraifft, mae ymweliadau gan blismon ac aelod o griw bad achub yn helpu plant i ddysgu am gadw'n ddiogel yn lleol. Mae cysylltiadau â busnesau lleol yn helpu i gynnal yr adeilad. Mae gan y lleoliad bartneriaeth ddefnyddiol â'r ysgol gynradd leol, gan rannu gwybodaeth werthfawr wrth i'r plant symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r bartneriaeth adeiladol ag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol, Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru ac AGGCC yn helpu â gwelliant parhaus yn y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae ymarferwyr â chymwysterau da yn rhedeg y lleoliad yn effeithiol ac yn gwneud defnydd da o'u harbenigedd unigol i wella profiadau dysgu plant. Mae enghreifftiau'n cynnwys darparu sesiynau dawnsio wythnosol i gynorthwyo datblygiad creadigol a chorfforol, a darllen storïau yn Gymraeg i blant mwy abl.

Mae ymarferwyr yn manteisio ar ystod addas o hyfforddiant defnyddiol i gadw'n gyfredol â datblygiadau diweddar a datblygu eu medrau ymhellach. Gwnânt ddefnydd da o'r hyfforddiant i wella profiadau dysgu plant, fel darparu mwy o gyfleoedd i blant ymarfer eu medrau didoli a pharu yn yr ardal awyr agored. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn elwa ar gyfleoedd i ddysgu oddi wrth leoliadau eraill na rhannu arfer dda.

Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr. Mae'r rhain yn helpu i sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn cyflawni eu gorau.

Mae'r pwyllgor rheoli'n adolygu'r gyllideb yn ofalus iawn. Maent yn defnyddio cyllid yn fedrus i sicrhau bod y grŵp yn parhau'n gynaliadwy ac i gynorthwyo dysgu plant. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu gwariant ac yn nodi blaenoriaethau gwariant y dyfodol yn ofalus, yn unol â chynllun gwella'r lleoliad.

O ystyried ansawdd cyffredinol darpariaeth ac arweinyddiaeth, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |